

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Tachwedd 17

10.00 - Oedfa Deulu  
11.30 a.m. - 1.00 p.m.  
Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Tachwedd 24

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion Williams

### Rhagfyr 1

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa

### Rhagfyr 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa

## Y mis nesaf - Llanberis

### Tachwedd 17

10.00 a.m. - Y Parchg Ddr John Glyn  
11.30 a.m. - 1.00 p.m.  
Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis  
5.00 p.m. - Mr Andrew Settatree

### Tachwedd 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu  
Ar ôl yr Oedfa Deulu bydd Cinio Cawl yn y  
festri er mwyn codi arian at Apêl Haiti.

5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Rhagfyr 1

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion Williams  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion Williams



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 567 – Dydd Sul, 17 Tachwedd 2013

## Pa ryfedd?

Yn ôl un cwmni diogelwch, fe gollodd siopau gwledydd Prydain nwyddau gwerth tri biliwn a hanner o bunnoedd y llynedd trwy dwyll a lladrad. Mae'r troseddu hwn yn amlwg yn broblem enfawr i berchenogion siopau, a does ryfedd bod cymaint o swyddogion diogelwch i'w gweld ym mhob siop fawr erbyn hyn.

Gwelwyd pobl yn lladrata ac ysbeilio nwyddau o siopau yn Ynysoedd y Pilipinas yr wythnos ddiwethaf wedi'r difrod enfawr a achoswyd gan deifffwn Haiyan. A chlywyd llefarwyr ar ran awdurdodau'r wlad yn condemnio'r lladrata hwnnw. Gallwn ddeall hynny os oedd pobl yn manteisio ar y trasiedi er mwyn ysbeilio nwyddau drudfawr. Ond gallwn hefyd ddeall pam y byddai pobl yn eu hanobaith llwyr yn fodlon gwneud unrhyw beth er mwyn cael gafael mewn ychydig o fwyd. Pa ryfedd bod pobl sydd ar eu cythlwg yng nghanol y fath ddiodefaint a cholledion yn barod i ysbeilio'r stordai er mwyn eu bwydo'u hunain a'u teuluoedd?

A pha ryfedd hefyd ein bod yn clywed am ymdrechion glew pobl y wlad i gynorthwyo ei gilydd? Yng nghanol y trychineb dychrynlyd gwelwyd pobl yn gofalu am ei gilydd ac yn gwneud popeth posibl i gynorthwyo'r rhai a ddiodefodd waethaf. Pa ryfedd, er enghraifft, ein bod yn clywed am Gristnogion lleol yn ymdrechu i gludo bwyd a diod i bentrefi diarffordd ar gefn moto beics, er i'r daith gymryd tri

diwrnod am fod ffyrdd wedi eu difa'n llwyr? Yr amgylchiadau gwaethaf yn aml a ddaw â'r gorau mewn pobl i'r amlwg.

A pha ryfedd felly bod cymaint o arian wedi ei gyfrannu ar draws y byd, ac yma yng Nghymru a gwledydd Prydain trwy'r Pwyllgor Argyfyngau Brys, er mwyn estyn y cymorth cwbl angenrheidiol i'r bobl a orosodd y teifffwn a'i ganlyniadau difaol?

Unwaith eto, mae lluniau dychrynlyd y difrod a'r diodefaint wedi esgor ar gydymdeimlad dwys a haelioni mawr, a bydd yr arian a gyfrannwyd gan bobl yn llythrennol yn achub miloedd ar filoedd o fywydau dros y dyddiau nesaf.

Pa ryfedd hefyd y bydd llawer o Gristnogion ac eglwysi'n awyddus i gyfrannu at yr apêl arbennig hon ac y byddant hefyd yn parhau i gefnogi gwaith cyson elusennau Cristnogol fel Tearfund a Chymorth Cristnogol? O weld y tloedi a'r newyn a'r diodefaint mawr, mae cariad Crist yn eu cymell i roi yn hael er mwyn cyfrannu ym mha ffordd bynnag y gallant at leddfu'r anghenion difrifol a welir ymhlith pobl y Pilipinas.

Boed bendith Duw ar bob ymdrech i anfon cymorth i'r ynysoedd hyn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Gallwn ninnau yn ogystal â chyfrannu arian weddio dros y bobl hyn yn eu diodefaint mawr.

## Cinio Cawl Capel

### yn Capel Coch ddydd Sul nesaf, Tachwedd 24

Rhowch wybod i ni os ydych am aros i ginio trwy un o'r ffyrdd a ganlyn:

Ffoniwch **01286 872390**

neu

Anfonwch e-bost at **john.cilfynydd@btinternet.com**

neu

Anfonwch neges destun (tecst) i Falmai ar **07796296592**

neu

Llenwch y bonyn a'i ddychwelyd i Cilfynydd, Llanberis  
erbyn nos Wener nesaf, Tachwedd 22

.....

Yr wyf / Yr ydym am ddod i'r Cinio Cawl Capel yn Capel Coch

Enw(au) .....

.....

.....

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Byddaf yn arwain Oedfa Deulu yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch hefyd.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr John Glyn, Llanllyfni ac estynnwn groeso cynnes iawn iddo unwaith eto, a diolch am ei wasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul yn mynd i Sul Efe yn Y Ganolfan am 11.30 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Andrew Settatree, a diolch iddo yntau am ei wasanaeth.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Ethol Blaenoriaid

Yn ystod oedfa'r bore yn Ebeneser am 10.00 o'r gloch heddiw cynhelir pleidlais i ethol diaconiaid newydd i'r eglwys. Gobeithio bydd cymaint â phosibl o aelodau Ebeneser wedi medru dod i'r oedfa i fwrw pleidlais.

## Cofion

### Cymdeithas Undebol

Yng Nghymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth yr wythnos hon, Tachwedd 12, Mrs Gwen Jones, Llanrug fu'n cyflwyno sgwrs am ddyddiaduron ei mam, Mrs Dilys Baylis. Llywyddwyd gan Miss Dilys Mai Roberts.

### Plentyn y Nadolig

Heno yw'r dyddiad cau ar gyfer bocsys esgidiau Ymgyrch Plentyn y Nadolig.

Byddaf yn mynd â'r bocsys i Landrillo yn Rhos ddechrau'r wythnos, ac mae'n siŵr y festri capel y Wesleaid yno yn llawn o bobl yn gosod trefn ar y bocsys a fydd wedi eu cludo yno o bob rhan o'r gogledd-orllewin.

Cofiwch roi gwybod i mi heno os oes gennych focs sydd heb ei ddanfon yma. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich rhoddion eleni eto.

### Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.30 o'r gloch brynhawn Mercher, Rhagfyr 4.

Bydd yno stondinau amrywiol ac os oes gennych nwyddau newydd neu bron yn newydd nad ydych eu heisiau, yna bydd y trefnwyr yn falch o'u cael ar gyfer y byrddau gwerthu.

Bydd yno hefyd stondinau cacennau a thuniau bwyd, a gwerthfawrogir pob cyfraniad tuag at y rheiny.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Tachwedd 24:** Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch, ac yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gwasanaethir gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Wener, Tachwedd 22:** CIC yn Capel Coch rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch.  
**Dydd Sul, Tachwedd 24:** Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch a Chinio Cawl Capel i ddilyn. Gweler y manylion isod. Mae ieuencid yr Ysgol Sul wedi paratoi cwis byr ar gyfer y Cinio. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Tachwedd 24:** Bydd oedfa am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

## HEDDIW

### Sul Efe

yn Y Ganolfan, Llanberis

rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch

ar gyfer Ysgolion Sul yr ardal

Y chwarae a'r dysgu yng ngofal  
gweithwyr Coleg y Bala

Croeso cynnes i bawb

Gweddiwch dros lwyddiant  
y gweithgarwch hwn heddiw

## Cinio Cawl Capel

ar ôl yr oedfa Deulu yn Capel Coch  
ddydd Sul nesaf, Tachwedd 24

er budd Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr 2013-2014

Croeso i chi aros i ginio a chyfrannu unrhyw swm a ddymunwch at yr Apêl.

**Er mwyn i ni gael syniad faint o fwyd i'w baratoi, a wnewch chi roi gwybod i ni os ydych yn am ddod i'r cinio os gwelwch yn dda.**

Gallwch wneud hynny mewn un o'r ffyrdd a welir ar gefn y nodyn hwn.

(Trowch i'r ddalen gefn)